OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 128 (Cy. 32)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 24(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a pharagraff 28(1) o Atodlen 6 iddi(**1**).

Yn unol ag adran 25(1) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw drafodiad trethadwy(**2**) y mae'r dyddiad y mae'n cael effaith ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

**Bandiau treth a chyfraddau treth canrannol**

**3.** Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol at ddibenion adran 24(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a pharagraff 28(1) o Atodlen 6 iddi—

(a) mae Tabl 1 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer pob band o ran trafodiadau eiddo preswyl;

(b) mae Tabl 2 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer pob band o ran trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch;

(**1**) 2017 dccc 1.

(**2**) *Gweler* adran 17 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 i gael y diffiniad o "trafodiad trethadwy".

(c) mae Tabl 3 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer pob band o ran trafodiadau eiddo amhreswyl; a

(d) mae Tabl 4 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer pob band o ran trafodiadau pan fo'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

31 Ionawr 2018

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

### Tabl 1: Trafodiadau eiddo preswyl

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £180,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000 | 3.5% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 7.5% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 10% |
| Y pumed band treth | Mwy na £1,500,000 | 12% |

### Tabl 2: Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Y band treth cyntaf | Nid mwy na £180,000 | 3% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000 | 6.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 8% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 10.5% |
| Y pumed band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 13% |
| Y chweched band treth | Mwy na £1,500,000 | 15% |

### Tabl 3: Trafodiadau eiddo amhreswyl

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £150,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £150,000 ond nid mwy na £250,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £1,000,000 | 5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £1,000,000 | 6% |

**Tabl 4: Cydnabyddiaeth drethadwy sydd ar ffurf rhent**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero LA | Nid mwy na £150,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £150,000 ond nid mwy na £2,000,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £2,000,000 | 2% |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol cyntaf ar gyfer treth trafodiadau tir, a gyflwynir gan Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf TTT").

Mae'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol yn y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiadau trethadwy y mae'r dyddiad y mae'r trafodiadau hynny'n cael effaith ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny.

Mae bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar wahân yn gymwys i:

- Trafodiadau eiddo preswyl (Tabl 1);
- Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch (Tabl 2);
- Trafodiadau eiddo amhreswyl (*Tabl 3*); a
- Cydnabyddiaeth drethadwy sydd ar ffurf rhent (ac sydd felly ond yn berthnasol yn achos lesoedd) (*Tabl 4).*

Mae'r dreth i'w chyfrifo yn unol ag adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf TTT ac eithrio pan fo'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent. Yn yr achosion hynny, mae'r dreth i'w chyfrifo yn unol â Rhan 5 o Atodlen 6 i'r Ddeddf TTT.

Yn rhinwedd adran 24(8) o'r Ddeddf TTT, mae trafodiadau sy'n cynnwys cymysgedd o eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl i'w trin fel trafodiadau eiddo amhreswyl (ac mae'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol yn Nhabl 3 yn gymwys).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.